Coleg Llandrillo | Coleg Menai | Coleg Meirion Dwyfor | Busnes@ LlandrilloMenai

# Gwella eich sgiliau **Mathemateg, Saesneg, Cymraeg, Digidol** a **Chyflogadwyedd** yn y Coleg

**Pan fyddwch yn dechrau ar eich cwrs newydd yn y coleg, byddwn yn gofyn pa raddau TGAU sydd gennych. Yn dibynnu ar eich graddau, byddwch yn cael eich cofrestru ar gwrs sgiliau priodol. Bydd hyn yn gyfuniad o ailsefyll arholiadau TGAU a/neu gymwysterau Sgiliau Hanfodol.**

Os ydych ar raglen Lefel 3 sy'n para 2 flynedd, mae'n bosibl y cewch eich cofrestru i wneud cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Os oes gennych radd D mewn Rhifedd, Mathemateg, Cymraeg (iaith gyntaf) neu Saesneg, cewch eich cofrestru i ailsefyll yr arholiad er mwyn ceisio cael gradd C neu'n uwch.

Os oes gennych radd is na D mewn Rhifedd/Mathemateg, Cymraeg (iaith gyntaf) neu Saesneg, neu os nad oes gennych raddau TGAU yn y pynciau hyn, cewch eich cofrestru i wneud cymwysterau Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol / Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol, ar y lefel briodol.

Os oes gennych radd C neu uwch, cewch eich cofrestru i wneud cymwysterau Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol / Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol. Os hoffech wella eich gradd C, cewch y cyfle i ailsefyll.

**Mae'r cymwysterau hyn yn rhan bwysig ac hanfodol o'ch cwrs cyffredinol yn y coleg.**

**Pam fod hyn yn rhan hanfodol o'ch cwrs?**

- Bydd yn gwella'ch rhagolygon os ydych yn gwneud cais am le mewn prifysgol yn y dyfodol
- Mae cyflogwyr yn rhoi gwerth ar sgiliau llythrennedd a rhifedd da ynghyd â sgiliau digidol a sgiliau cyflogadwyedd
- Bydd gwella'ch sgiliau llythrennedd a rhifedd o fudd i chi ar eich prif gwrs

**Oes gennych chi ddiddordeb mewn gyrfa ym maes addysg, meddygaeth neu beirianneg?**

Mae'n debygol y bydd angen gradd B o leiaf arnoch mewn rhai pynciau craidd i ymuno â'r proffesiynau hyn. Yn y coleg rydym yn cynnig cymorth pwrpasol i ddysgwyr sydd â graddau C, ond sydd eisiau eu codi i raddau B neu uwch.

**Angen cymorth ychwanegol?**

Rydym yn deall bod rhai dysgwyr yn cael agweddau ar Fathemateg a/neu Gymraeg/ Saesneg yn heriol. Mae cymorth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar bob un o safleoedd y coleg. Mae modd galw heibio i ofyn am gymorth neu gellir trefnu amser penodol. Gall sesiynau bara wythnosau neu gellir eu teilwra'n unol â'ch anghenion. Gall sesiynau fod wyneb yn wyneb neu ar-lein.

**Unrhyw gwestiynau?** I gael rhagor o wybodaeth, siaradwch â'ch tiwtor personol a fydd yn gallu trafod eich dewisiadau efo chi.

Coleg Llandrillo | Coleg Menai | Coleg Meirion Dwyfor | Busnes@ LlandrilloMenai

# Improving your **Maths, English, Welsh, Digital** and **Employability skills** at College

**When you start your new course at college, you will be asked to tell us about what GCSE grades you already have. You will be enrolled on an appropriate skills course, depending on what grades you have. This will be a combination of GCSE resits and / or Essential Skills qualifications.**

If you are on a 2 year, Level 3 programme, you may be enrolled onto the Welsh Baccalaureate.

If you have a D grade in Numeracy, Maths, Welsh (first language) or English you will be enrolled to resit the exam to improve to a C grade or above.

If you have below a D grade in Numeracy/Maths, Welsh (first language) or English, or you have no GCSE grades in these subjects, you will be enrolled onto Essential Application of Number Skills / Essential Communication Skills qualifications, at the appropriate level.

If you have a C grade or above, you will be enrolled onto Essential Digital Literacy Skills / Essential Employability Skills qualifications.

If you would like to improve on your C grade, you will be given the opportunity to resit.

**These qualifications are an important and essential part of your overall course at college.**

### Why is this an essential part of your course?

- It will improve your prospects if you are applying to university in the future
- Good literacy, numeracy, digital and employability skills are valued by employers
- Improving your literacy and numeracy skills will benefit you on your main course

### Are you interested in a career in education, the medical profession or engineering?

You are likely to need a minimum B grade in some core subjects to enter these professions. At college we offer dedicated support for learners who have C grades, but who want to improve that to a B or higher.

### Need some extra support?

We understand that some learners find aspects of maths and/or Welsh/English challenging. Support is available at every college site, through the medium of Welsh and English. This support can be on either a drop in basis or by attending an agreed timetabled slot. Sessions may run over a period of weeks or can be personalised to meet your needs. Sessions may be face to face or online.

**Any questions?** | For further information, talk to your personal tutor, who can talk you through your options.